

CYFARFOD	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	9fed o Chwefror 2023
TEITL	ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL
PWRPAS	Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.
AWDUR	Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol

1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

2 Cyflwyniad

- 2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
- 2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2018 a Ionawr 2023 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.
- 3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.
- 3.3 Hefyd, fe nodir 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis ym mis Mehefin 2022.
- 3.4 Rydym wedyn yn nodi ein 'Casgliad' o'r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni'r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i gwblhau', yntau a yw yn parhau 'ar waith'. Mae'r casgliadau yma wedi eu cytuno

gan Grŵp Llywodraethu'r Cyngor. Mater i'r Pwyllgor hwn yw barnu a yw'n cytuno â'r 'Casgliadau' a'i peidio. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 1.

- 3.5 Yn dilyn cais gan aelodau'r Pwyllgor yn ôl ym mis Mehefin 2022 rydym wedi adolygu'r allwedd i'r casgliadau ynghyd a gosod amserlen ar gyfer cwblhau'r adroddiadau hynny sydd 'ar waith'.
- 3.6 Mae'r adroddiadau yn Atodiad 1 i gyd yn rai a oedd a'u argymhellion 'heb ei gychwyn', 'wrthi'n cael ei gynllunio' neu 'ar waith' pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Mehefin 2022, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny.

4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

5 Camau nesaf ac amserlen

- 5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol.